Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Ysgol Bro Famau
Ffordd Eryrys
Llanarmon-yn-Iâl
Sir Ddinbych
CH7 4TB

09/01/2026

Annwyl arweinwyr a staff

**Ymweliad interim:** Rhagfyr 2025

Ymwelodd tîm o arolygwyr ag Ysgol Bro Famau yn ddiweddar i ystyried cynnydd o ran yr argymhelliad o'r arolygiad craidd blaenorol. Achubodd y tîm arolygu ar y cyfle i arsylwi addysgu a dysgu, siarad â disgyblion a staff, ystyried dogfennau, ac edrych ar samplau o waith disgyblion. Isod, ceir crynodeb o'r canfyddiadau o'r ymweliad.

**Ffocws yr ymweliad**

### Adeiladu ar sylfeini cwricwlwm sefydledig i sicrhau parhad a dilyniant mewn medrau, gwybodaeth a dealltwriaeth ar gyfer pob un o'r disgyblion.

- Mae gan yr ysgol ymagwedd strategol ac effeithiol at gynllunio ar gyfer dilyniant yn nysgu disgyblion.
- Mae profiadau dysgu'n cyd-fynd yn dda ag ethos a dibenion Cwricwlwm i Gymru. Mae'r ysgol yn defnyddio'i chyd-destun lleol yn effeithiol i gefnogi dysgu a dilyniant, er enghraifft trwy waith testun arloesol.
- Ceir trefniadau effeithiol ar gyfer datblygu medrau llythrennedd, mathemategol a digidol disgyblion yn gynyddol. Mae darpariaeth yr ysgol yn cynorthwyo'r rhan fwyaf o ddisgyblion i wneud cynnydd da o ran datblygu a defnyddio'u medrau.
- Ceir cyfleoedd rheolaidd a gwerthfawr i ddisgyblion ddefnyddio ystod lawn eu medrau i ymateb i dasgau prosiect.
- At ei gilydd, maent yn manteisio'n llawn ar y cyfleoedd hyn i gynhyrchu gwaith o safon uchel yn seiliedig ar amrywiaeth o themâu, fel amrywiaeth.

- Mae'r cydweithio rhwng disgyblion o wahanol oedrannau a galluoedd wrth gwblhau'r prosiectau hyn yn drawiadol.

Estyn, Llys Angor, Heol Keen, Caerdydd, CF24 5JW Ffôn: 02920 446446 ymholiadau@estyn.llyw.cymru www.estyn.llyw.cymru

Estyn, Anchor Court, Keen Road, Cardiff, CF24 5JW Telephone: 02920 446446 enquiries@estyn.gov.wales www.estyn.gov.wales

Mae Estyn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y naill iaith neu'r llall yn cael yr un flaenoriaeth.

Estyn welcomes correspondence in both English and Welsh. Correspondence received in either language will be given equal priority.

- Mae athrawon yn defnyddio prosesau asesu yn dda i gefnogi parhad a dilyniant wrth ddatblygu medrau, gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion ar draws y meysydd dysgu a phrofiad.
- Mae athrawon yn gwneud defnydd effeithiol o wybodaeth asesu i lywio'u cynllunio o ddydd i ddydd a sicrhau bod lefel yr her o fewn gwersi yn gweddu i anghenion disgyblion yn dda, yn gyffredinol. Mae gan athrawon ddisgwyliadau uchel ar gyfer cynnydd disgyblion.
- Mae adolygiadau pwrpasol o gynnydd disgyblion yn galluogi staff i nodi p'un a yw disgyblion yn gwneud y cynnydd y maent yn ei ddisgwyl. Mae hyn yn eu helpu i ddarparu cymorth ychwanegol priodol, lle mae angen.
- Mae arweinwyr wedi buddsoddi'n sylweddol mewn datblygu darpariaeth ysgol goedwig. Mae disgyblion o bob oedran yn elwa ar gyfleoedd cyson a gwerthfawr i fod yn greadigol, datrys problemau a chydweithio yn ystod profiadau wedi'u cynllunio'n ofalus yn yr awyr agored.
- Ym mhob ystafell ddosbarth, mae athrawon yn darparu adnoddau ar gyfer disgyblion sy'n cefnogi eu datblygiad i fod yn ddysgwyr annibynnol. Mae'r rhain yn cynnwys ystod o offer mathemateg ymarferol a waliau gweithio y gall disgyblion gyfeirio atynt, pan fydd angen.
- Dros gyfnod, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dysgu sut i gymryd cyfrifoldeb cynyddol am eu dysgu eu hunain, er enghraifft i wella ansawdd eu gwaith ysgrifenedig.
- O bryd i'w gilydd, caiff darpariaeth ar gyfer disgyblion iau yn yr ysgol ei strwythuro'n ormodol gan oedolion. Ar yr adegau hyn, caiff cyfleoedd i ddisgyblion arwain eu dysgu eu hunain, rhoi cynnig ar eu syniadau eu hunain a datblygu chwilfrydedd eu cyfyngu gan dasgau penodedig gyda deilliannau wedi'u pennu ymlaen llaw.

Gellir dod o hyd i adroddiad arolygiad craidd diweddaraf yr ysgol a mwy o wybodaeth am y broses a diben ymweliadau interim ar ein gwefan:
[http://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6632039](http://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6632039)

Yn gywir

LMiles.

**Liz Miles**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol